

**GWELLIANT I RYBUDD O GYNNIG (EITEM 9.2 AR YR AGENDA) A
GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR KEVIN MADGE A ROB JAMES**

“Mae Grŵp Cymorth Iselder Shadows yng Nglanaman wedi cael effaith gadarnhaol ar boblogaeth Dyffryn Aman a Chwm Gwendraeth dros y tair blynedd diwethaf, gan ddarparu gwasanaeth iechyd meddwl eang sy'n effeithio ar y gymuned ehangach.

Mae'r Cyngor yn nodi bod cyllid Shadows wedi dod i ben o 5 Medi a bod cryn bryder am yr effaith bosibl ar y rhai sy'n defnyddio ei wasanaethau.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, y clwstwr Meddygon Teulu a Chyngor Sir Caerfyrddin i weithio gyda Grŵp Cymorth Iselder Shadows i geisio dod o hyd i ateb cynaliadwy o ran cyllid er mwyn diogelu gwasanaethau yn Nyffryn Aman a Chwm Gwendraeth.

Mae'r Cyngor yn galw ymhellach ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i sicrhau bod digon o wasanaethau iechyd meddwl ar gael i drigolion ledled Sir Gaerfyrddin, yn y tymor byr a'r tymor hir.”

Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd J. Tremlett
Eiliwyd gan: Y Cynghorydd K.V Broom